



Her Ysgolion Cynaliadwy

Mae Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi lansio **Her Ysgolion Cynaliadwy** arloesol drwy'r Rhaglen a'r fframwaith llywodraethiant presennol.

Gan adeiladu ar fandad Carbon Sero Net y Rhaglen, rydym yn gwahodd ceisiadau gan awdurdodau lleol sy'n amlygu dull **arloesol** a **chydweithredol** o ddylunio, datblygu, gweithredu a rheoli dwy ysgol newydd, a all wneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd a'r tir o'u hamgylch. Bydd y cydweithrediad yn cynnwys dysgwyr, staff, rhieni, cymuned a chadwyni chyflenwi drwy bob cam o ddylunio, adeiladu a bywyd gweithredol ysgol wirioneddol gynaliadwy.

Ysgolion cynradd sydd mewn golwg, a bydd dyraniad o hyd at **£30 miliwn** yn darparu'r **holl gyllid** ar gyfer y ddau brosiect hwn, sef £15 miliwn fesul prosiect (caiff prosiectau eraill eu hystyried ar wahân i ysgolion cynradd).

Bydd y gwersi a ddysgir o'r ddau brosiect hwn yn sail i ganllawiau rhaglenni ehangach, gan gynnwys bylchau ymchwil a sgiliau, gan gryfhau ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio a diogelu'r amgylchedd.

Bydd yr Her yn tynnu ar elfennau cynaliadwyedd y Cwricwlwm Newydd a sut gall ein dysgwyr ifanc ddefnyddio hyn ar gyfer eu 'cymuned dysgu cynaliadwy' eu hunain, eu hysgol **nhw** yn eu cymuned **nhw**.

Drwy gydol y broses, bydd disgwyl i dimau prosiect y ddwy ysgol/y ddau ALL a fu'n llwyddiannus rannu gwersi a ddysgir, a chânt eu hystyried yn llawn, gan gyfrannu'n uniongyrchol at **Astudiaeth Achos** yn gysylltiedig â'n canllawiau. Un o brif amcanion yr Her yw ysgogi'r gadwyn gyflenwi gyfan i lawn ystyried cyfleoedd a dulliau gweithredu arloesol y cyfyngir arnynt yn aml iawn fel arfer.

Gwahoddir awdurdodau lleol i enwebu un o'u prosiectau arfaethedig, neu brosiect newydd (cyn belled â bod modd tystiolaethu'r ddarpariaeth o fewn 3 blynedd), a datblygu ateb arloesol i'n **Hargyfwng Hinsawdd a Natur** presennol. Wrth werthuso'r cynigion, dilynir y fframwaith arfarnu presennol, ynghyd â'r prif flaenoriaethau addysg drwy'r Grŵp Craffu ar Achosion Busnes a'r Panel Buddsoddi mewn Addysg. Caiff panel ychwanegol o gynrychiolwyr

Her Ysgolion Cynaliadwy

Herio Gwaith Arloesi drwy Gydweithio

academaidd, proffesiynol a diwydiant ei sefydlu i asesu'r cynigion, gan ganolbwyntio ar ddull gweithredu arloesol pob un o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Bydd rhestr fer o chwech i wyth prosiect yn cael eu cadarnhau a bydd pob awdurdod lleol a'r ysgol sy'n cyrraedd y cam hwn yn cael y cyfle i gyflwyno eu cynnig a chymryd cwestiynau gan y panel a fydd yn eu cynnal **wythnos yn cychwyn ar 28 Tachwedd 2022**. Bydd penderfyniad y panel yn derfynol.

Mae'r **Her Ysgolion Cynaliadwy** yn gwahodd ceisiadau arloesol i ddatblygu a chynnal dwy ysgol gynradd yng Nghymru, un yn y Gogledd a'r llall yn y De, a all arddangos ymrwymiad enghreifftiol i gynaliadwyedd amgylcheddol ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid ym mhob cam o'r broses o ddylunio, adeiladu a rhedeg ysgol newydd. Gyda'r bwriad o gyfrannu at amgylchedd yr ysgolion, dylai'r prosiectau wella cymeriad y safle ei hun ac ansawdd bywyd yng Nghymru.

Gan weithio gyda'ch timau dylunio a gweithredu, a chan weithio'n agos gyda'ch plant, eich pobl ifanc a'ch staff fel y gallant lywio eu hamgylchedd dysgu, dylech lunio cynigion sy'n cwmpasu pob elfen o'r amgylchedd adeiledig a'r tir o'i amgylch o ran cynaliadwyedd.

Am beth fydd y Panel yn chwilio?

- Prosiect sy'n cwmpasu'r amgylchedd adeiledig a'r tir o'i amgylch mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd disgyblion o ddydd i ddydd
- I ba raddau yr ymgysylltir â'r defnyddwyr a'r rhanddeiliaid ym mhob cam o'r prosiect, gan gynnwys pan fydd y safle yn cael ei ddefnyddio
- Cysylltiad y defnyddwyr â'r adeilad
- Technoleg arloesol i ddarparu gwasanaethau, apiau a/neu blatfformau newydd
- Effeithlonrwydd o ran ynni, dŵr, gofod, deunyddiau
- Ansawdd pensaernïol
- Cyfrannu at Economi Gylchol, gan gynnwys aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau, ac ystyried sut i'w defnyddio ar ddiwedd eu hoes
- Elfennau sy'n para'n hirach a chost is dros gyfnod eu hoes
- Gwerth am arian
- Dulliau arloesol o'i gwneud yn bosibl rhannu cyfleusterau heb gyfaddawdu ar ddiogelwch a'r ymdeimlad o berchnogaeth
- Hyblygrwydd o ran defnyddio gofod

Her Ysgolion Cynaliadwy

Herio Gwaith Arloesi drwy Gydweithio

- Hyblygrwydd i'r dyfodol o ran addasu gofod
- Technolegau syml, ond effeithiol
- Adeilad a fydd yn addysgu ei ddefnyddwyr drwy ei ddyluniad ac sy'n cysylltu â'r cwricwlwm
- Lle i feithrin perthynas ag eraill
- Adeilad byw sy'n un â natur, e.e. waliau byw sy'n dod â'r ardal y tu allan i mewn i'r adeilad
- Cynllun bioffilig¹
- Dylunio goddefol
- Cyfoethogi bioamrywiaeth y safle cyfan a'r tir o'i amgylch a, lle bo modd, cysylltu â thirwedd naturiol cyfagos
- Cynhyrchu bwyd
- Defnydd cymunedol
- Dysgu cymunedol, lle mae'r dechnoleg a'r arloesi yn ysbrydoli ac addysgu'r gymuned gyfagos
- Ymrwymiad cryf i Deithio Llesol – gwneud cysylltiadau â rhwydweithiau/cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.

Dylai eich Achos Busnes Amlinellol Strategol ddod i law erbyn 3 Tachwedd 2022.

Dylai Achosion Busnes dynnu sylw at y **meini prawf amgylcheddol** a'r dull o **gydweithio** i sicrhau bod disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned yn cael **dysgu** ac yn cael eu cynnwys gymaint â phosibl ynghyd â'r gadwyn ddylunio a chyflenwi gyfan. Mae'r Her yn gyfle unigryw i ddysgwyr ymgysylltu a dangos sut bydd eu hysgol yn cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at gynaliadwyedd, a chwarae rôl allweddol o ran llywio'r fframwaith gweithredu i bob ysgol a ddarperir drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i'r dyfodol.

Lle bo modd, caiff y safleoedd eu hadeiladu o ddeunyddiau naturiol lleol (h.y. pren, carreg ac ati), a chaiff y cynigion eu barnu ar sail ystod o feini prawf amgylcheddol, gan gynnwys defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a/neu naturiol, asesiadau o garbon oes gyfan y safle, lefelau golau dydd naturiol, lefelau inswleiddio da, ynni isel, dulliau cynhyrchu a storio pŵer gwyrdd ar y safle, casglu ac aildefnyddio dŵr glaw, Teithio Llesol a

¹ Mae dylunio bioffilig yn gysyniad a ddefnyddir o fewn y diwydiant adeiladu i **gynyddu cysylltiad y sawl sy'n defnyddio adeilad â'r amgylchedd naturiol** drwy natur uniongyrchol, natur anuniongyrchol, a gofod a llefydd.

Her Ysgolion Cynaliadwy

Herio Gwaith Arloesi drwy Gydweithio

chysylltiadau â rhwydweithiau lleol, a'r gallu i ddelio â thymereddau amrywiol a heriau ehangach y newid yn yr hinsawdd.